**AC-05-00(min)**

# PWYLLGOR ARCHWILIO

## COFNODION

**Dyddiad:** 15 Mehefin 2000

**Amser:** 9.30am

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2

**Yn bresennol**
**Aelodau**

| | |
|---|---|
| Janet Davies | (Cadeirydd) Gorllewin De Cymru |
| Lorraine Barrett | De Caerdydd a Phenarth |
| Peter Black | Gorllewin De Cymru |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Jane Davidson | Pontypridd |
| Geraint Davies | Y Rhondda |
| Brian Gibbons | Aberafon |
| Alison Halford | Delyn |
| Dafydd Wigley | Caernarfon |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Syr John Bourn | Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| Gillian Body | Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| Ian Summers | Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| Sharon Davies | Swyddog Cydymffurfio Dros Dro y Cynulliad Cenedlaethol |

**Eitem 1 ar yr Agenda: Sesiwn Cymryd Tystiolaeth**
**Papurau: AC-05-00(p. 1)**

1.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth mewn cysylltiad â *Chofnod y Trysorlys i Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Reoli a Llywodraethu Ariannol yng Ngholeg Trydyddol Gwent* a gyhoeddwyd ar 12 Ionawr 2000.

**Tystion**

Jon Shortridge Ysgrifennydd Parhaol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
David Mason Pennaeth a Phrif Weithredwr, Coleg Gwent (Coleg Trydyddol Gwent gynt)
Steve Martin Prif Weithredwr, Cyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru
Richard Hirst Cyfarwyddwr Cyllid, Cynghorau Cyllido Cymru

1.2 Atodir trawsysgrifiad air am air fel atodiad i'r cofnodion hyn.

**Eitem 2 ar yr Agenda: Sesiwn Cymryd Tystiolaeth**
**Papur: AC-05-00(p.2)**

2.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth mewn cysylltiad ag Adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru ar *Adroddiad Cyffredinol Archwiliwr Cyffredinol Cymru ) Archwiliad Ariannol o Gyfrifon 1998-99* a gyhoeddwyd ar 17 Mawrth 2000.

**Tystion**

Jon Shortridge Ysgrifennydd Parhaol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Laurie Pavelin Pennaeth, Isadran Atebolrwydd Ariannol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

2.2 Atodir trawsysgrifiad air am air fel atodiad i’r cofnodion hyn.

**Eitem 3 ar yr Agenda : Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**
**Papur: AC-04-00(min)**

3.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol.

3.2 Yn y cyfarfod diwethaf, roedd yr aelodau wedi trafod mater amnewidiadau i’r Pwyllgor Archwilio. Cafodd papur ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Busnes ar 6 Mehefin ac roeddent wedi cytuno i gynnig newid i Orchymyn Sefydlog 12.7 i ganiatáu newid i’r Pwyllgor Archwilio pan fyddai aelod yn anghymwys i gymryd rhan yng ngweithrediadau’r Pwyllgor oherwydd ei fod/ei bod yn aelod o bwyllgor pwnc sy’n berthnasol i’r mater dan sylw. Byddai’r gwelliant a gynigiwyd yn cael ei gyflwyno gerbron y Cynulliad i’w ystyried cyn hir.

**Eitem 4 ar yr Agenda: Adroddiad y Pwyllgor Archwilio ar *Gyfrifon Cryno NHS (Cymru) 1998-99***

4.1 Penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o’r rhan hon o’r cyfarfod yn unol â Gorchymyn Sefydlog 8.21(vi):

Gall Pwyllgor benderfynu wahardd y cyhoedd o gyfarfod neu ran o gyfarfod pan: fydd y pwyllgor yn trafod casgliadau neu argymhellion adroddiad y bwriedir ei gyhoeddi ganddo.

Cafwyd trafodaeth lawn ar yr adroddiad drafft ac ystyrir y materion a godwyd gan yr aelodau yn yr adroddiad terfynol.

4.2 Daeth y cyfarfod i ben am 12.40pm.